Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

21 Mai 2019

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Mai ynglŷn â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth. Mae'n bleser gennyf roi'r sicrwydd pellach rydych yn ei geisio gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch darpariaethau'r WTO yn y Bil Amaethyddiaeth (Rhan 7, Cytundeb y WTO ar Amaethyddiaeth).

Mae'r Cytundeb yn amlinellu'r broses gadarn sy'n sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol. Rwy'n gallu cadarnhau bod y Cytundeb rwyf wedi'i wneud gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yn llawer mwy nag ymrwymiad i gynnal ymgynghoriad, ac mae'n seiliedig ar ofyniad i weithredu ar sail consensws. Lle nad yw'n bosibl dod i gonsensws, mae'r Cytundeb yn gosod mecanweithiau clir a thryloyw y mae'n rhaid eu defnyddio i ddatrys anghydfodau.

O ran gwneud rheoliadau o dan y pwerau yn Rhan 7, bydd rheoliadau drafft yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru gyda'r nod o ddod i gytundeb, wedyn bydd llythyrau'n cael eu cyfnewid. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i Weinidogion Cymru amlinellu eu safbwynt, ac i'r Ysgrifennydd Gwladol esbonio'r rhesymau dros ffurf derfynol y rheoliadau a sut y mae Llywodraeth y DU wedi ceisio dod i gytundeb. Byddai unrhyw anghydfodau'n cael eu huwchgyfeirio'n unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth presennol sy'n ymdrin â'r berthynas rhwng Llywodraethau, ac unrhyw gytundebau ar ddatrys anghydfodau yn y dyfodol. Os ceir anghydfod, ar ôl defnyddio pob un o'r mecanweithiau hyn i ddatrys yr anghydfod, dylai'r llythyrau a gyfnewidiwyd gael eu rhoi i ddau Dŷ Senedd y DU cyn cynnal y bleidlais gadarnhaol ar y rheoliadau sy'n ofynnol o dan Ran 7.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae mecanwaith sy'n rhoi rôl glir i Weinidogion Cymru wrth benderfynu ar ddosbarthiadau cymorth ariannol hefyd yn rhan o'r Cytundeb. Bydd Gweinidogion Cymru yn cynnig dosbarthiadau cymorth ar gyfer cynhyrchwyr amaethyddol yng Nghymru, yn gyson â'r rheoliadau a wnaed o dan Ran 7 a'r proses fanwl a amlinellir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar y ffordd maent yn cael eu gweithredu. Bydd y dosbarthiad sydd wedi cael ei gynnig yn cael ei ystyried gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Amaethyddiaeth eraill y DU. Os deuir i gytundeb, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn hysbysu'r WTO am y dosbarthiad. Os na fydd modd dod i gonsensws trwy'r drefn datrys anghydfodau presennol, caiff y mater ei roi ger bron 'panel o arbenigwyr i gael eu cyngor annibynnol ar y mater sy'n cael ei drafod. Mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried y cyngor hwn a rhannu ei benderfyniad a'r rheswm drosto â Gweinidogion Cymru.

Mae swyddogion yn gweithio gyda DEFRA ar becyn helaeth i fynd i'r afael â phryderon a leisiwyd gan y Pwyllgor yn ei adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf. Rwy'n gallu cadarnhau bod cynnydd da yn cael ei wneud yn hyn o beth, ac er nad wyf mewn sefyllfa i ymateb yn ffurfiol ar yr adeg hon, byddaf yn gwneud hynny yn fuan ar ôl i'r Bil ailgychwyn ar y broses seneddol.



**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs